# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Mai 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 68(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ddyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop ynghylch torri rheolau dŵr glân yng Nghymru, gan gynnwys yng Nghilfach Tywyn ger Llanelli?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y diswyddiadau posibl ym Mhrifysgol Aberystwyth?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6288**

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru)
Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)
Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod plismona yn fater sydd wedi'i ddatganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

2. Yn galw am ddatganoli plismona i Gymru.

3. Yn credu ei bod yn well cydgysylltu materion plismona arbenigol, fel polisïau gwrth-frawychiaeth, ar lefel y DU.

## 6 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6303** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi'r egwyddor bod Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yn cael ei gadw yn nwylo'r cyhoedd.

2. Yn pryderu ynghylch y goblygiadau cyllidebol a thrawsffiniol i wasanaethau iechyd yng Nghymru yn sgil preifateiddio graddol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr.

3. Yn credu bod yn rhaid i unrhyw gytundebau masnach y DU yn y dyfodol fod yn amodol ar gydsyniad y Cynulliad hwn, os bydd y cytundebau hynny'n effeithio ar feysydd polisi datganoledig, fel iechyd.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod y cydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd Cymru a Lloegr a dibyniaeth cleifion Cymru ar wasanaethau arbenigol yn Lloegr, fel gwasanaethau trawsryweddol, gwasanaethau newyddenedigol aciwt a gwasanaethau iechyd meddwl i blant.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6302** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod angen arweinyddiaeth gryf a chadarn ar Gymru a'r Deyrnas Unedig er mwyn parhau â ffyniant economaidd y wlad.

2. Yn gresynu at gefnogaeth gyhoeddus y Prif Weinidog i gynnig i fenthyca £500 biliwn yn ychwanegol a fyddai'n peryglu dyfodol economi Cymru.

3. Yn cydnabod yr angen i ystyried costau polisïau yn llawn er mwyn sicrhau nad yw cynnydd economaidd Cymru a'r DU yn cael ei beryglu.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi y byddai Cymru a'i heconomi'n elwa fwyaf ar Lywodraeth y DU sy'n ymrwymo i fuddsoddi mewn modd teg a chynaliadwy ymhob rhan o'r wlad.

2. Yn gresynu at y ffaith y bydd cynlluniau gwario Llywodraeth bresennol y DU yn golygu bod cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru £1 biliwn yn is mewn termau real erbyn diwedd y degawd hwn nag ydoedd ar y dechrau ac y bydd cyllidebau cyfalaf werth £200 miliwn yn llai.

3. Yn gresynu at gynlluniau Llywodraeth y DU i dorri £3.5 biliwn arall o'i chyllideb, gan y gallai olygu bod Cymru'n derbyn £175 miliwn yn llai yn 2019-20.

4. Yn nodi hanes Llywodraeth Cymru o ysgogi twf economaidd, a'r ffaith bod bron i 150,000 o swyddi wedi'u cefnogi yn ystod tymor y Cynulliad diwethaf.

5. Yn croesawu cynlluniau buddsoddi cyfalaf gwerth £7 biliwn Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd nesaf er mwyn cefnogi seilwaith cyhoeddus.

6. Yn nodi rhaglen lywodraethu uchelgeisiol Llywodraeth Cymru sy'n nodi cynlluniau wedi'u prisio ar gyfer:

a) Buddsoddiad ychwanegol gwerth £100 miliwn mewn ysgolion yng Nghymru;

b) O leiaf 100,000 o brentisiaethau ar gyfer pobl o bob oedran;

c) Lleihad bychan yn y dreth fusnes;

d) Cronfa gwerth £80 miliwn ar gyfer triniaethau;

e) Dyblu terfyn cyfalaf gofal preswyl;

f) 30 awr o ofal plant am ddim ar gyfer plant tair a phedair oed y mae eu rhieni'n gweithio, 48 wythnos y flwyddyn.

[Rhaglen Lywodraethu]

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod yr angen i amddiffyn Cymru rhag y posibilrwydd o Lywodraeth Geidwadol ddi-hid y DU.

2. Yn credu na ellir dibynnu ar Lywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU i amddiffyn Cymru, i hyrwyddo buddiant cenedlaethol Cymru, na chyflawni potensial economaidd y genedl.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6300** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ailadeiladu bywydau drwy chwaraeon cymunedol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Mai 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Mai 2017 i'w hateb ar 10 Mai 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

1. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gyflwyno Bagloriaeth Cymru? OAQ(5)0117(EDU)

2. Huw Irranca-Davies (Ogwr): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth addysgol sy'n cael ei ddarparu i blant o deuluoedd sydd yn y lluoedd arfog yng Nghymru? OAQ(5)0113(EDU)

3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella addysg yn Sir Benfro? OAQ(5)0114(EDU)

4. David Rees (Aberafan): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cryfderau addysg alwedigaethol ymysg pobl ifanc 14-16 oed? OAQ(5)0125(EDU)

5. Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio technolegau digidol mewn ysgolion cynradd yng Nghymru? OAQ(5)0118(EDU)

6. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y newidiadau arfaethedig i'r broses o dderbyn disgyblion i ysgolion ym Mhowys o fis Medi 2017? OAQ(5)0121(EDU)

7. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y buddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i adeiladau ysgolion yn Islwyn? OAQ(5)0119(EDU)

8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd? OAQ(5)0115(EDU)

9. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am addysgu hanes yn ysgolion Cymru? OAQ(5)0116(EDU)

10. Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarpariaeth chweched dosbarth yng Nghymru? OAQ(5)0126(EDU)

11. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddiogelwch disgyblion a myfyrwyr ar deithiau maes dramor? OAQ(5)0123(EDU)

12. David Rowlands (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am leoli chweched dosbarth mewn un coleg canolog? OAQ(5)0128(EDU)

13. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): Pa gamau pellach y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i wella perfformiad addysgol mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru? OAQ(5)0129(EDU)

14. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu? OAQ(5)0127(EDU)

15. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(5)0120(EDU)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

1. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r effaith a gaiff ffioedd tribiwnlysoedd cyflogaeth ar fynediad at gyfiawnder yng Nghymru? OAQ(5)0037(CG)

2. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Beth yw asesiad y Cwnsler Cyffredinol o'r effaith a gaiff adroddiad y cyngor cyfiawnder ar ehangu amrywiaeth farnwrol ar Gymru?  OAQ(5)0034(CG)

3. Jeremy Miles (Castell-nedd): Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o ran a oes gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wahardd y defnydd o gontractau dim oriau yng Nghymru? OAQ(5)0036(CG)

4. Lynne Neagle (Torfaen): Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r goblygiadau cyfreithiol i Gymru yn sgil ymchwiliad 2008 Comisiwn yr UE i arferion gwrth-gystadleuol gan y diwydiant fferyllol? OAQ(5)0035(CG)

**5.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y Mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi’u cynnal gyda swyddogion y gyfraith ynghylch datganoli y gyfundrefn gyfiawnder? OAQ(5)0038(CG)**W**

**6.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa asesiad y mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi’i wneud ynglyn af effaith deddfwriaeth Ewropeaidd ynglyn a llygredd awyr ar Gymru? OAQ(5)0039(CG)**W**